CANIADAU Y CYSSEGR A'R TEULU

Pris 4s.

L. Harris
Chicago

Gyda Chopin carding

Thomas Lee

Dubuque, Michigan 16 July 1890

CANIADAU Y CYSSEGR

A'R

TEULU.

DETHOLIAD NEWYDD O DONAU

AT WASANAETH

CYNNULLEIDFAOEDD A THEULUOEDD,

GYDA

Geiriau Cymraeg a Saesnig.

GAN

AMRYW GERDDORION.

DINBYCH:
ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLXXVIII.

RHAGYMADRODD.

WRTH gymmharu Cerddoriaeth Grefyddol ein gwlad, fel y mae yn ymddangos yn y blynyddoedd hyn, â'r hyn ydoedd flynyddoedd yn ol, y mae yn amlwg fod cyfnewidiadau mawrion a phwysig wedi cymmeryd lle; a bod llawer ymdrech wedi ei wneuthur er ei diwygio gan gerddorion galluog, trwy geisio sefydlu yr arddull a'r ffurf a ystyrient hwy y mwyaf cyfaddas i fawl y cyssegr. Y mae diwygwyr yn fynych yn dueddol i efelychu cynlluniau eu gilydd; ac wrth hyny y maent yn y perygl o lithro, yn aml yn ddiarwybod iddynt eu hunain, i fath o unffurfiaeth—a hwnw weithiau yn un difywyd. Y mae yn debyg fod hyn yn wir am rai o ddiwygwyr cerddoriaeth gyssegredig y Cymry; a bod ambell un hefyd wedi barnu mai cyfansoddiadau y Germaniaid, a chyfansoddiadau estronol eraill o gyffelyb arddull, oeddynt y cynlluniau goreu i'w dilyn. Ni fynem ar unrhyw gyfrif i neb feddwl ein bod yn beiddio condemnio neb o'n cydlafurwyr ar y maes hwn; ac nid oes dim yn mhellach oddi wrth ein bwriad na hyny. Ar yr un pryd yr ydym yn hyderu y goddefir i ni ddyweyd fod cyfansoddiadau o'r cymmeriad hwn, a siarad yn gyffredinol, yn ymddangos i ni yn hollol anghydweddol â'r mawredd a'r amrywiaeth diderfyn sydd yn nhestynau ein hen emynau dihafal, ac â beiddgarwch a chyfoeth awen ein cyfansoddwyr, ac hefyd â'r bywiogrwydd a'r gwres sydd yn nodweddau mor amlwg o ysbryd crefyddol ein cydgenedl.

Yr oedd holl gerddoriaeth eglwysig y Cyfandir yn mron, yn yr unfed a'r eilfed ganrif ar bymtheg, yn hynod am ei symlrwydd; a chadwyd hi yno, ac i raddau pell hefyd yn y deyrnas hon, mewn cylch unffurf a chyfyng. Y mae yr hen Goralau wedi eu cyfansoddi gan gerddorion dysgedig, ac wedi eu cyfaddasu i'w canu mewn symlder, gyda chyfeiliant cryf a mawreddog yr organ. Dan y cyfryw amgylchiadau, bydd y dadganiad o honynt yn fynych yn nerthol; ond nid ydynt mor gymmhwys i'w canu â lleisiau noeth a llaweroedd o gyfansoddiadau eraill. Ac yn ein barn ostyngedig ni, y mae rhai sydd wedi ein blaenori wedi gwneyd camgymmeriad mawr wrth daflu eu holl ddylanwad o blaid yr arddull a enwyd ar ganeuon crefyddol, a hyny ar draul diystyru, a gwawdio weithiau hefyd, dônau ystwyth a melodaidd oedd wedi gwneyd lle iddynt eu hunain yn nheimladau ein cydwladwyr, ac yn cael eu hystyried o'r bron yn 'ysbryd-oledig' gan hen grefyddwyr deallus a phrofiadol eglwysi Cymru gynt. Ond cafwyd y pleser o weled ambell un o'r cyfryw yn troi yn ol atynt drachefn, ac yn rhoddi y prawf ymarferol mwyaf sicr a boddhaol o'r camgymmeriad dybryd y syrthiasant iddo wrth eu condemnio.

Y dosbarth o dônau sydd yn tueddu yn fwyaf at genhedlu teimlad, o ba natur bynag y byddo—pa un bynag ai o fawl a diolchgarwch, ai o lawenydd, ynte o alar ac edifeirwch—yw y tônau cymmhwysaf i arllwys

teimladau hefyd. Ac hyd y clywsom ac y gwelsom ni, mewn adegau o adfywiad neu o ddiwygiad crefyddol, nid y tônau arafaidd, sillebol, 'Germanaidd,' a elwir gan rai o'n cerddorion yn 'dônau clasurol'—nid dyma y tônau a dderbyniant sylw yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd ar yr adegau bendithfawr hyny; ond tônau o natur dra gwahanol—y rhai a ddyblwyd ac a dreblwyd drachefn a thrachefn, laweroedd o weithiau, gan galonau llawn o dân yn mhob ardal drwy y Dywysogaeth flynyddoedd yn ol; a'r rhai a genir etto hefyd gyda hyfrydwch annisgrifiadwy yn y blynyddoedd dyfodol, pan y bydd llaweroedd o'r 'tônau clasurol,' fel eu gelwir, wedi eu claddu—byth i adgyfodi mwy.

Gyda hyn yna o sylwadau cyffredinol ni a roddwn ychydig o hanes y casgliad hwn, ac o'r amcanion mewn golwg wrth ei gyfansoddi. Y mae y tônau sydd ynddo, fel yr hysbysir ar y wyneb-ddalen, wedi eu dethol a'u trefnu gan amryw sydd yn perthyn i'r gwahanol enwadau crefyddol. Nid ydym ni (y detholwyr) yn teimlo fod unrhyw esgusawd yn angenrheidiol dros ei ymddangosiad—yn mhellach na'i fod wedi ei fwriadu i chwanegu at fanteision ein cerddoriaeth, yn gynnulleidfaol ac yn deuluaidd, trwy gyflwyno i sylw y rhai sydd yn teimlo dyddordeb yn hyn nifer o dônau a ystyriwn ni yn wirioneddol dda, ac yn deilwng o gael eu canu yn ein cynnulleidfaoedd—llawer o ba rai sydd heb fod i'w cael yn y llyfrau a arferir y dyddiau hyn yn y Dywysogaeth.

Nid ydym wedi cyfyngu ein hunain yn ein detholiad at unrhyw ddosbarth o dônau; ac nid ydym mewn un modd yn condemnio y 'tônau sillawg' (*syllabic tunes*) yn gyffredinol, gan fod llawer o honynt yn dda; a gwelir nifer lled fawr yn britho y casgliad hwn. Ond yr hyn yr ydym yn teimlo y gwrthwynebiad mwyaf iddo ydyw, i ni gyfyngu ein hunain iddynt, a gwrthod pob un, hyd y beiddir, sydd yn meddu unrhyw nodweddiad arall. Ar yr adeg bresennol, y mae yn eglur fod y tueddiad y cyfeiriwyd ato uchod i'w ganfod yn gryf yn ein cynnulleidfaoedd ni yn Nghymru, fel yn Lloegr, sef at y tônau sillawg; hyny yw, tônau y mae nodyn yn unig ynddynt ar gyfer pob sill yn yr emynau. Nodweddir y rhai hyn hefyd gan amddifadrwydd o lithrenau ac ail adroddiadau.

Ond er mor ragorol ydyw llawer o'r tônau sillawg, y mae nifer mawr o dônau eraill, sydd mor ragorol, wedi bod mewn ymarferiad, ac yn cael eu harfer etto, mewn llawer o gynnulleidfaoedd y Saeson, â mwy o amrywiaeth a melodedd yn eu cyfansoddiad nag a geir yn y 'tônau sillawg;' y rhai y mae cerddorion lawn mor enwog a hwythau wedi eu hystyried yn gymmhwys i'w gosod yn eu Casgliadau, er cymmaint a gondemniwyd arnynt gan eraill. Ac yr oedd gweinidogion gwir efengylaidd, fel y Parchn. J. A. James, o Birmingham; T. Binney, o Weigh-house Chapel; a J. Sherman, Surrey Chapel, gynt; a C. H. Spurgeon, ac eraill, yn awr; a llawer o weinidogion enwocaf y Dywysogaeth hefyd, yn cymmeradwyo eu harferiad yn eu cynnulleidfaoedd yn fawr. Ond y maent yn prysur fyned allan o arferiad yn Nghymru. Byddai ein hen dadau yn eu canu gyda blâs neillduol: a chan ein bod ninnau o'r farn na ddylent gael eu bwrw o'r neilldu fel esgymmun-bethau, yr ydym wedi corphori llawer o'r rhai goreu o honynt yn y casgliad hwn, gan deimlo yn gwbl sicr y deuant i arferiad etto.

Ni raid i ni ddywedyd yma fod llawer o dônau eraill hefyd—swynol, a melus odiaeth—a adwaenir yn ein mysg ni fel 'tônau Cymreig,' nas gellir

cael eu rhagorach na'u cymmhwysach i arddangos, a meithrin, a chryfhau teimladau crefyddol cynnulleidfaoedd; a theimlwn y buasem yn troseddu yn erbyn ein cenedlaetholdeb, a dywedyd y lleiaf, pe na buasai i ni gynnwys o fewn y gyfrol hon gynnifer o rai da o honynt ag y gallasem eu cael. Yr ydym wedi ymdrechu i'w gosod i lawr mewn diwyg mor gywir a naturiol ag oedd modd, gan ymgadw ar y naill law rhag tynu dim oddi wrthynt, ac o'r tu arall rhag eu rhoddi yn y wedd eithafol yr arferid eu canu weithiau yn y blynyddoedd o'r blaen.

Y mae yn y ddau ddosbarth diweddaf a enwyd rai sydd yn cynnwys ail adroddiadau, ac ambell un lle y mae llinell yn cael ei thori ynddi. Nid ydym yn teimlo fod defnyddio y naill na'r llall yn drosedd yn erbyn chwaeth dda, na theimladau crefyddol cynnulleidfa; ond y maent yn hytrach yn fynych yn foddion i ddwyshau teimlad. Gyda'r tônau hyn byddwn mewn perygl o orfod tori gair, weithiau, yn ei hanner—yr hyn sydd yn ammhriodol—os na wylir rhagddo. Ond gellir ymddiried detholiad y tônau, o ran hyn, i ddwylaw yr arweinyddion; gan eu bod hwy, ac yn wir ein cantorion yn gyffredinol y dyddiau hyn, yn ddigon craff i weled ar amrantiad pan y bydd hyny yn debyg o ddigwydd—ac yn alluog hefyd i'w ochelyd. A chan y gellir osgoi yr anghysur hwn mor hawdd, nid oeddym yn foddlawn i daflu allan hen dônau cryfion a da sydd yn meddu y nodweddiad hwn o'r neilldu o herwydd rheswm mor wael, na chwaith i fwrw ymaith yr ail adroddiadau prydferth a nerthol a gynnwysa llawer o honynt.

Yr ydym wedi rhoddi geiriau Saesnig a Chymreig wrth y tônau, fel y gellir eu defnyddio gan gynnulleidfaoedd a theuluoedd yn mhob un o'r ddwy iaith. Y mae pob llais hefyd yn meddu ei linell ei hun; ac y mae yn ddiammheuol y bydd y cyfeiliant (*accompaniment*) sydd yn yr Hen Nodiant yn dderbyniol iawn gan laweroedd. Gallasem gynnwys y pedwar llais, fel y gwneir yn awr mewn rhai llyfrau, mewn dwy linell: ond er fod y dull hwn yn chwanegiad mawr iawn at y draul o ddwyn y gwaith hwn allan, gwell oedd genym ei gyhoeddi fel y mae, gan ei fod yn fwy hwylus i bawb, ac yn enwedig i'r sawl sydd heb feddu ond ychydig o wybodaeth gerddorol.

Pan yr oedd y rhan gyntaf yn y wasg, gwelsom erthygl ragorol yn y "*Congregationalist*," am Ebrill, 1874, yr hwn a olygir gan y Parch. R. W. DALE, M.A., o Birmingham, ar y testyn canlynol:—"*Hymn Singing;*" sef 'Canu Hymnau, neu Emynau:' yr hon oedd wedi ei hysgrifenu gan neb llai na Mr. JOHN SPENCER CURWEN, mab awdwr enwog CYFUNDREFN Y SOL-FFA. A chan ei bod; i raddau pell iawn, yn cynnwys y syniadau a'n harweiniodd ni i ymgymmeryd â'r gwaith hwn, y mae yn dda iawn genym allu cyhoeddi y dyfyniadau canlynol o honi—yn enwedig gan eu bod yn ffrwyth barn addfed un o gerddorion enwocaf y deyrnas. Fel hyn y dywed Mr. CURWEN:—

"Canu Hymnau, neu Emynau, yn ddiammheuol ydyw y ffurf mwyaf cymmhwys i drosglwyddo moliant yn gynnulleidfaol. Dyma yr achos fod yr Anghydffurfwyr, a'r sectau mwyaf brwdfrydig o'r cyfryw, wedi ei ddiwyllio i'r fath raddau, fel y mae, neu fel yr arferai fod, 'Canu Salmau,' neu *Chantio*, yn cael ei ystyried gan y mwyafrif o honynt yr un peth a '*sism*.' Yn Eglwys Loegr, y mae lle israddol wedi ei bennodi i'r emynau; a chenir hwynt yn fursenaidd a theneu, ac heb ddim o'r gafael a'r yni a geir yn nghaniadaeth yr Ymneilluwyr. Canu emynau ydyw yr ymarferiad cerddorol mwyaf poblogaidd yn addoliadau yr Anghydffurfwyr yn awr—ac y

mae yn debyg o barhau felly; ac, o blegid hyny, dyma ydyw y ffurf gerddorol mwyaf teilwng o'n sylw a'n hefrydiaeth.

Dylai y gwahaniaeth sydd rhwng y Dôn Saesnig a'r Coral Ellmynig gael sylw detholwyr llyfrau tônau, a chyfansoddwyr tônau hefyd. Arddull trystfawr ac anghelfydd amryw o dônau poblogaidd yr oes o'r blaen a gynnyrchodd y teimlad sydd yn ffafr y tônau a elwir yn '*sillawg*'—am fod un nôd ar bob sill. Fel y rhan fwyaf o symmudiadau, aeth y symmudiad hwn i eithafion. Yn eu hadgasedd at 'Calcutta,' a'i chyffelyb, cauodd ein diwygwyr eu llygaid ar yr hyn oedd dda yn y tônau. *Vox populi vox Dei:* 'Llais y bobl llais Duw:'—os bydd peth yn boblogaidd y mae yn werth gwneuthur ymchwiliad i'r achos pa ham y mae felly. Y ffaith yw, fod y rhediadau, y llithrenau ymledol, y cyfnewidiad sydd yn cymmeryd lle yn y lleisiau gwrywaidd a benywaidd, ac effaith ddyrchafedig y brawddegau efelychiadol sydd i'w cael yn y tônau hyn, yn caniatau rhyddid yn wastad i'r teimlad nas gellir ei gyrhaedd trwy gyfrwng y 'Dôn Sillawg.' Nid ydyw y Rhan-gân, yn ei ffurf symlaf, yn ddim amgen na thôn ar emyn wladol, neu anghyssegredig: er hyny, anaml y ceir cyfansoddwyr yn foddlawn i ysgrifenu Rhan-gân 'sillawg.' Y mae y lleisiau yn gwibio oddi wrth eu gilydd, a cheir rhediadau yn yr holl ranau yn cynnyrchu gwrthgyfleadau symmudiadol—yr amrywiaeth hwnw mewn unoldeb a swyna y glust. Gwna cyfansoddwr y Rhan-gân symlaf, mewn gwirionedd, yr un peth yn hollol ag a wnaed yn nhônau yr oes o'r blaen. Y mae yn wir nad bob amser y gwneid hyn gyda chwaeth dda. Yr oedd yr effaith yn israddol, ac yn dyfod yn fuan yn gyffredin a di-argraph. Byddai y tônau yn cael eu llusgo, ac arosid ar y brawddegau—yn lle eu canu yn gyflym, a chydag aceniad eglur. Yr hongian wrth y nodau, a'r crychleisiad, a'r llithro, a ddiflasodd bersonau o chwaeth, ac a gynnyrchodd y symmudiad yn ffafr y Tônau Sillawg. Ond a ydyw y darllenydd yn ammheu am foment nad yr hen arddull o dôn oedd y gryfaf i osod allan gynnhyrfiadau y meddwl? Yr wyf yn cofio clywed canu yr emyn, '*Come, Holy Spirit, Heavenly Dove*' ('Tyr'd Ysbryd Sanctaidd, g'lomen nef') mewn capel yn un o fân drefi sir Gaerefrog. Hon oedd y llinell olaf;—ac onid ydyw yn fwy cyfaddas i 'ennyn fflam o gariad' cyssegredig yn nghalon addolwyr na'r llinell drydonol 'sillawg' yr wyf wedi ei gosod yn gyfochrog â hi?



Yr oedd yr hen bobl yn siglo wrth ymdoniad y felodedd—yr hon oedd yn amlwg wedi cyffwrdd â'u calon. Ni bydd Tônau Sillawg byth yn cael eu canu fel yna. Yn eu mysg, yn enwedig y rhai hynafol, y mae rhai enghreifftiau rhagorol i'w cael:—ond gwareder ni rhag cael dim yn rhagor. Nid oes dim mwy o swyn mewn llawer o'r tônau newyddion a ysgrifenir y dyddiau hyn nag sydd yn ngerddi yr Is-ellmyn (*Dutch gardens*—gerddi y mae pob peth sydd ynddynt yn cael ei drefnu wrth reolau caethion, ac nid i gynnyrchu prydferthwch), ac nid oes mwy o deimlad ynddynt nag sydd mewn cloc. Nid wyf yn dadleu dros ddychwelyd yn ol at 'Calcutta,' a'i chyffelyb; ond yr wyf o'r farn y dylai ein tônau gynnwys neillduolion goreu yr hen dônau hyn, heb dramgwyddo y chwaeth."

Yr ydym yn hollol gymmeradwyo syniadau Mr. Curwen, ac yn dymuno hysbysu ein bod wedi ymdrechu, wrth ddethol a threfnu y tônau yn y Casgliad hwn, i gadw amrywiaeth yn elfen fywiol drwy y gwaith: a chredwn fod hon yn elfen bwysig yn nghaniadaeth gynnulleidfaol y Cymry. Amrywiaeth rhamantaidd ydyw cynnysgaeth natur i'r Cymro, a rhaid i'w athrylith gyfranogi o'r un pethau. Ond cymmerasom, er hyny, y gofal mwyaf i gadw y gynghanedd yn syml a diymhongar, gan ofalu

am gymmaint o felodedd ag a ganiatëid i bob un o'r gwahanol ranau, neu leisiau.

Yr ydym yn teimlo ac yn cydnabod ein rhwymedigaeth i ddiolch yn wresog i'r lliaws cyfeillion hyny a anfonasant i ni hen lyfrau mewn llawysgrifen, er ein cynnorthwyo i gael gafael ar lawer o alawon nad ydynt mewn argraph; ac i'r rhai hyny a anfonasant dônau i ni hefyd, a llythyrau i'n calonogi gyda'n gorchwyl. Cawsom ganiatâd parod a charedig i ddefnyddio tônau o'r llyfrau canlynol, yr hyn yr ydym yn dymuno ei gydnabod gyda diolchgarwch gwresog:—

"*Caniadau y Cyssegr*," gan y diweddar Mr. JOHN ROBERTS, Henllan; o'r hwn y cawsom gryn nifer o alawon, a rhai trefniadau.

Rhif 1, gan y Parch. Syr F. A. G. OUSELEY, Barwnig, M.A., *Mus. Doc.*

Rhif 6, a 7, o "*Waite's Hallelujah*," trwy Dr. WAITE, o Liverpool.

Rhif 10, 57, 60, 65, 114, 109, 127, 132, 133, 147, 159, a 267, o "*The Bristol Tune Book*," trwy y Meistri. W. ac F. MORGAN.

Rhif 23, 28, 35, 46, 61, 63, 66, 112, 121, 137, 141, 148, 198, 206, a 208, o "*The Congregational Psalmist*," gan y Parch. HENRY ALLON, D.D.

Rhif 41, a 67, gan y Parch. R. BROWN BORTHWICK, o Scarborough.

Rhif 55, gan Gwilym Gwent; a 68, 140, 222, a 243, gan Mr. DAVID LEWIS, Llanrhystyd—o "*Llwybrau Moliant*," gan y Parch. LEWIS JONES, Treherbert.

Rhif 89, o "*Brenhinol Ganiadau Seion*."

Rhif 56, 90, 91, 94, 106, 107, 117, 138, 186, 194, 196, 233, 259, 278, 303, 306, 311, 314, 315, 316, 324, 328, 331, 338, 339, 346, 351, 354, 377, 379, 385, 419, 422, 424, 442, a 444, o "*Aberth Moliant*," gan y diweddar Mr. J. AMBROSE LLOYD, a Mr. EBENEZER REES.

Rhif 110, 248, 340, a 402, o "*Congregational Church Music*," gan Dr. W. M. COOKE.

Rhif 169, 191, 193, a 207, o "*Llyfr Tônau y Wesleyaid*," trwy y diweddar Barch. W. DAVIES, D.D.

Rhif 182, a 199, o'r "*Church Hymns and Tunes*," gan ARTHUR SULLIVAN, Ysw.

Rhif 220, a 434, o'r "*Welsh Church and Chant Book*," gan y Parch. THOMAS JONES, Llanengan Rectory, Pwllheli.

Rhif 231, 299, 358, a 414, o "*Llyfr Tônau*" y Parch. E. STEPHENS, a'r diweddar Mr. J. D. JONES, gan Mrs. BUNNER, o Chorley—gweddw y diweddar Mr. JONES.

Rhif 302, 330, 372, 383, 420, a 435, o'r "*In Memoriam*," gan Mr. W. H. ROBERTS, o Seacombe.

Rhif 367, gan y Meistri. J. NISBET, a'i Gyf.

Yr ydym hefyd yn dra rhwymedig i'r cerddorion canlynol am dônau, a chynghaneddion o hen alawon:—Mrs. WATTS HUGHES (*Megan Watts*); Mr. J. H. ROBERTS (*Pencerdd Gwynedd*); Mr. THOMAS WILLIAMS (*Hafrenydd*); Mr. DAVID LEWIS, Llanrhystyd; Mr. R. H. PRICHARD, Mr. PETER EDWARDS, Mr. D. JONES MORRIS, Mr. WILLIAM WILLIAMS (*Northyn*), Mr. J. ASHTON, Mr. WILLIAM OWEN, Prysgol; ac i Mr. THOMAS LLOYD JONES, am anfon at ein gwasanaeth dônau a gyfansoddwyd gan ei dad, y diweddar Barch. JOHN JONES, Tal-y-sarn. Y mae ein diolchgarwch cynnhesaf yn ddyledus hefyd i Mr. R. DRURY, Liverpool, am lawer o gynnorthwy, ac am ei dôn ragorol "Llanwddyn;" ac i Mr. W. H. ROBERTS,

o Seacombe, yr un modd am amryw o awgrymiadau; ac hefyd i Mr. W. J. HUGHES, B.A., Rhyl, am ein hanrhegu â nifer o'i gyfansoddiadau. Yr oedd rhai o honynt yn argraphedig o'r blaen, a chyfansoddwyd eraill ganddo yn bennodol i'r gwaith hwn.

Er pan yr ydym wedi dechreu ar ein gorchwyl, yr ydym wedi colli rhai o'n cymmwynaswyr caredig; sef, Mr. JOHN ROBERTS, Henllan; Mr. J. A. LLOYD; a'r Parch. Dr. DAVIES. Y maent hwy wedi myned oddi wrth eu gwaith at eu gwobr; ac o herwydd hyny y maent allan o gyrhaedd ein diolchgarwch ni. Nid oes genym gan hyny ond cyflwyno yr unrhyw yn y modd cynnhesaf i'w gweddwon a'u hamddifaid.

Os ydym, mewn amryfusedd, wedi defnyddio unrhyw dôn neu emyn, heb ganiatâd yr awdwr, neu heb wneuthur cydnabyddiaeth o hyny, dymunem i'r cyfryw dderbyn yn garedig ein hesgusawd dros yr amryfusedd; a bydd yn dda genym gael cyfleusdra i gywiro unrhyw gam o'r fath mewn argraphiadau dyfodol, os gelwir ein sylw ato.

Dichon y goddefir i ni yma wneuthur y sylw hwn wrth ein cantorion, yr hwn sydd yn ymddangos i ni yn bwysig—Byddwch yn dra gofalus am gario yr holl gynnulleidfa gyda chwi yn y rhan yma o wasanaeth y cyssegr. Ac mewn trefn i wneyd hyny, na fyddwch yn rhy awyddus i symmud yn mlaen gyda phennill dyeithr, heb roddi cyfleusdra i'r neb fydd yn arwain y gwasanaeth, pa un bynag ai mewn cyfarfod gweddi neu oedfa, i roddi y pennill allan yn rhanau, os gwelir angenrheidrwydd am hyny. Y mae efe mewn llawer gwell mantais i weled sefyllfa y canu mewn cynnulleidfa na'r cantorion, ac na'r arweinydd chwaith:—a chan fod cael yr holl gynnulleidfa i ganu yn annhraethol bwysig, fe ddylid gadael hyn at ei farn ef. Cofied ein cantorion hefyd fod llawer heb lyfrau hymnau; a phe y byddent ganddynt, nas gallent eu darllen fe allai, o herwydd eu pellder oddi wrth y goleuni, neu ryw anghyfleusderau eraill; ac y mae yn ddiammheuol y dylid cydymdeimlo a chydymddwyn â'r cyfryw. Na ddiystyrer henaint, na thlodi, nac anwybodaeth chwaith, er dim yn ein cynnulleidfaoedd gyda'r canu, mwy na chydag unrhyw gyflawniad crefyddol arall. Da fyddai i'n pregethwyr hefyd gadw yr amgylchiadau hyn mewn golwg, a gofalu, hyd y gallant hwy, fod y cynnulleidfaoedd yn gyffredinol yn cael eu cymmhell i ymuno i ganu mawl y Goruchaf.

Gyda hyn o eglurhâd ar ein cynllun, ni a derfynwn trwy ddymuno llwyddiant i bob ymdrechiadau a wnaed, ac a wneir etto, i wellhau ein Cerddoriaeth Gyssegredig; a gobeithiwn hefyd y bydd "*Caniadau y Cyssegr a'r Teulu*," er unrhyw ammherffeithderau sydd ynddo, yn gynnorthwy tuag at sicrhau yr amcan teilwng hwn.

Y DETHOLWYR.

Ebrill, 1878.

Y MYNEGAI I'R TONAU.

ALPHABETICAL INDEX TO THE TUNES.

SALM-DONAU SENGL (*Single Chants.*)

SALM-DONAU DWBL (*Double Chants.*)

Y MYNEGAI MESUROL.

METRICAL INDEX.

Mesur Byr. [Short Metre.]

Mesur Byr Dwbl. [Double Short Metre.]

Mesur Byr Cymraeg. [Welsh Short Metre.]

Mesur Cyffredin. [Common Metre.]

Mesur Cyffredin Dwbl. [Double Common Metre.]

Mesur Salm. [Psalm Metre.]

Mesur Salm Dwbl. [Double Psalm Metre.]

Mesur Hir. [Long Metre.]

Mesur Hir Dwbl. [Double Long Metre.]

Mesur 8. 6. [8. 6. Metre.]

Mesur 8. 7; 8. 8. 7. [8. 7; 8. 8. 7. Metre.]

Mesur 8. 7; 6. 7. [8. 7; 6. 7. Metre.]

Mesur 112. [112th Metre.]

Mesur 113. [113th Metre.]

Mesur 8. 8. 6. [8. 8. 6. Metre.]

Mesur 8. 8. 8. 6. [8. 8. 8. 6. Metre.]

Mesur 8. 8. 8. 4. [8. 8. 8. 4. Metre.]

Mesur 2. 8. [2. 8. Metre.]

Mesur 7. 7; 8. 7. [7. 7; 8. 7. Metre.]

Mesur 7. 6. [7. 6. Metre.]

Mesur 6. 8. 8. (148.) [6. 8. 8. Metre.]

Mesur 6. 6. 8. [6. 6. 8. Metre.]

Mesur 6. 8. 6. [6. 8. 6. Metre.]

Mesur 6. 8. 4. [6. 8. 4. Metre.]

MESUR 6. 6. 4. [6. 6. 4. METRE.]

MESUR 6. 4. [6. 4. METRE.]

MESUR 6. 4. 7. [6. 4. 7. METRE.]

MESUR 6. 4. 8. 7. [6. 4. 8. 7. METRE.]

MESUR 6. 5. [6. 5. METRE.]

MESUR 7. 3. [7. 3. METRE.]

MESUR 7. 6. 5. [7. 6. 5. METRE.]

MESUR 10AU. [10S. METRE.]

MESUR 10. 11. [10. 11. METRE.]

MESUR 8AU. [8s. METRE.]

MESUR 8. 3. 6. [8. 3. 6. METRE.]

MESUR 8. 3. 6. DWBL. [DOUBLE 8. 3. 6. METRE.]

SALM CXVII.

MESUR 7. 6. 8. [7. 6. 8. METRE.]

MESUR 8. 7. 7. [8. 7. 7. METRE.]

MESUR 8. 7. 4. [8. 7. 4. METRE.]

Mesur 8. 7. 3. [8. 7. 3. Metre.]

Mesur 8. 7. Dwbl. [8. 7. Double Metre.]

Mesur 8. 7. [8. 7. Metre.]

Mesur 7au. 4 llin. [7s. 4 lines Metre.]

Mesur 7au. 6 llin. [7s. 6 lines Metre.]

Mesur 7au. 8 llin. [7s. 8 lines Metre.]

Mesur 7, 4. [7. 4. Metre.]

MESUR 7AU. 10 llin. [7s. 10 lines METRE.]

MESUR 8. 4. [8. 4. METRE.]

MESUR 8. 8. [8. 8. METRE.]

MESUR 9. 8. [9. 8. METRE.]

MESUR 10. 11. [10. 11. METRE.]

MESUR 5. 5. 6. 5. [5. 5. 6. 5. METRE.]

MESUR 5. 5. 8. [5. 5. 8. METRE.]

MESUR 11AU. [11s. METRE.]

MESUR 12. 11. [12. 11. METRE.]

1. ABERYSTWYTH. Mesur Byr. [Short Metre.]

Ouseley.



2. AYNHOE. M. B. [S. M.]

J. Wade.



AYNHOE.—*Parhad.* [*Continued.*]

It boasts of a ce - les - tial birth, And is the gift of God.

'Does delyn yn y nef all wneyd Per - or - iaeth gystal byth.

3. BATH. M. B. [S. M.]

MILGROVE.

Be - hold the throne of grace The pro - mise

Cyd - un - ed Sei - on lân Mewn cân ber-

calls me near; There Je - sus shows a smil - ing

eidd - ia'i blas, O fawl am dru - gar - edd - au'r

BATH.—*Parhad.* [*Continued.*]



4. CAMBRIDGE. M. B. [S. M.] HARRISON.





5. CARLISLE. M. B. [S. M.] LOCKHART.

Ye weary pilgrims come, Your drooping spi - rits raise;

Ai am fy mei - au i Diodd - ef - odd Ie - su mawr,

Our Je - sus soon will take us home, To sing his endless praise.

Pan ddaeth yn ngrym ei gar-iad ef O entrych nef i lawr?

6. IPSWICH. M. B. [S. M.] J. J. WAITE.

How gentle God's commands, How kind his precepts are;

Tos - tur - i dwyfol fawr At lwch y llawr sy'n bod,

IPSWICH.—*Parhad.* [*Continued.*]

Come cast your burden on the Lord, And trust his constant care.

Pan gymmerth Duw ach - ub-iaeth dyn, A'i glymu 'n un â'i glod.

7. KENCHESTER. M. B. [S. M.]

What cheering words are these, Their sweetness, who can tell?

Mae'n decach yn ei wedd O'r bron na dyn-ol - ryw;

In time and to e - ter - nal days, 'Tis with the righteous well.

Nid oes gre- ad - ur is y rhôd Sydd debyg i fy Nuw.

8. SARAH. M. B. [S. M.]

DR. ARNOLD.

Let all who would profess Their faith in Je - sus know

Pe medd - wn aur Per-iw, A pherlau'r In - dia bell,

'Tis in the way of ho - li - ness, His peo - ple walk be - low.

Mae gronyn bach o ras fy Nuw Yn dry - sor can - mil gwell.

9. SHIRLAND. M. B. [S. M.]

STANLEY.

Far as thy name is known, The world de - clares thy praise;

Caed ffynnon ar y bryn A ylch yn wyn a glân,

SHIRLAND.—*Parhad.* [*Continued.*]



10. SILCHESTER. M. B. [S. M.] Dr. Malan.



11. St. BRIDE'S. M. B. [S. M.] Dr. Arnold.

And am I born to die, To lay this bo - dy down,

Ai marw raid i mi, A rhoi fy nghorph i lawr?

And must my trembling spi-rit fly In - to a world un- known.

A raid i'm henaid ofn-us ffoi I dragwyddoldeb mawr?

12. WIRKSWORTH. M. B. [S. M.] Dr. Green.

Now to thine al - tar, Lord, A broken heart I bring;

O Iesu! dal fi'r lan, Nid wyf ond gwan a gwyw;

WIRKSWORTH.—[illegible]

And wilt thou gracious - ly re - ceive If such a worthless thing

'Does dim all else [illegible] can find mine in Jesus

13. CEMMAES. Merch Byr Cymraeg.

[Welsh Strong Hymns. [illegible]—peculiar to Wales.] J. William.

Mar - wolaeth Ie - su glân, Yw testyn cân duw - iol - ion;

Y gwaed dywalltwyd dros y byd A'u gwna i gyd yn wynion.

14. CLYWEDOG. M. B. C. [W. S. M.] J. Jeffreys.



15. St. CADFAN. M. B. C. [W. S. M.] W. Williams.

Fy Mugail yw Duw'r nef, Fe edrych Ef am dan - af;

Fy eidd-o yw a'i eidd-o wyf, Pa eisiau mwy fydd ar - naf.

16. TAL-Y-WAEN. M. B. C. [W. S. M.] J. Williams.

Mewn ing a gwaed - lyd chwys, Bu'n go- - gon-

TAL-Y-WAEN.—*Parhad.* [*Continued.*]



17. ARABIA. Mesur Cyffredin. [Common Metre.] Colm.



18. BENNETT'S. M. C. [C. M.]

Come, Thou de - sire of all thy saints, Our hum - ble

An - tur - iaf at ei or - sedd fwyn Dan ei - thaf

strains at - tend, While with our praises and com - plai

ty - wyll nôs; Ac mi orphwysaf, doed a dd

Low at thy feet we bend, Low at thy feet we ben

Ar haedd-iant gwaed ei groes, Ar haeddiant gwaed ei gr

19. BANGOR. M. C. [C. M.] Alaw Gymreig.

Blest Lamb of God, whose bleeding love We now re - call to mind!

O! an - fon di yr Ysbryd Glàn, Yn e - nw Ie - su mawr;

Oh! hear us from thy throne a - bove, And let us mercy find.

A'i weithrediad - au me - gys tân, O! an - fon ef i lawr.

20. BROOKLYN. M. C. [C. M.] Dr. L. Mason.

Through all the changing scenes of life, In trouble, and in joy,

Rwy'n sefyll ar dymhestlog làn Yr hen Iorddonen ddu,

BROOKLYN.—*Parhad.* [*Continued.*]



21. DUNDEE, NEU FRENCH. M. C. [C. M.] G. FRANC.





22. DESIRE. M. C. [C. M.] Dr. Arnold.



23. DUNFERMLINE. M. C. [C. M.] 1615.

When all thy mercies, O! my God, My ri - sing soul sur - veys,

Mae'r haul yn ddisglaer yn y nef, Cyf - iawnder dwyfol ddyn;

Transported with the view, I'm lost In wonder, love, and praise.

Ac mae'n ty - wynu'n hyfryd iawn Ar bob dryll - ied - ig un.

24. DOWLAND'S. M. C. [C. M.] J. Dowland, 1592.

My God, how won-der- ful thou art! Thy ma- jes - ty how bright!

Mae'r or- sedd fawr yn awr yn rhydd, Gwrandewir llais y gwan;

DOWLAND'S.—*Parhad.* [*Continued.*]



25. DARMSTADT. M. C. [C. M.] KRIEGER, 1666.



26. EDEN. M. C. [C. M.]

Hen Alaw.



27. FARRANT. M. C. [C. M.]

R. Farrant.



28. FELIX. M. C. [C. M.]

Mendelssohn.



FELIX.—*Parhad.* [*Continued.*]



29. FERRY. M. C. [C. M.]

Alaw Seisnig





30. GWINLLAN. M. C. [C. M.]

Hen Alaw.

One pri - vi - lege my heart de - sires: O! grant me

Mae dydd-iau griddfan i mi'n hir— Caeth - iw - ed

an a - bode Among the churches of thy saints, The

Ba - - - bel fawr; O! na chawn deimlo'r Ju - bil fwyn Yn

temples of my God. The temples of my God. The temples of my God.

agor dorau'r wawr. Yn agor dorau'r wawr. Yn a - gor dorau'r wawr.

31. HWYROL. M. C. [C. M.] Alaw Gymreig.



32. LLANELWY. M. C. [C. M.] Alaw Gymreig.

O! that the Lord would guide my ways To keep his statutes still;

O! tyr- ed, Ysbryd sanctaidd, pur, Nertha'm blin-ed - ig draed;

O! that my God would grant me grace To know and do his will.

A rho i mi o - lwg o - leu, glir Ar hyfryd dir fy ngwlad.

33. MARTYRS. M. C. [C. M.] 1615.

My soul lies cleaving to the dust; Lord, give me life di-vine.

'Rwy'n edrych dros y bryniau pell, Am danat Ie - su mawr;

MARTYRS.—*Parhad.* [*Continued.*]



34. MARTYRDOM. M. C. [C. M.] H. Wilson.





35. MEAUX ABBEY. M. C. [C. M.] J. Crueger.



36. NORWICH. M. C. [C. M.] Purcell.



23. DUNFERMLINE. M. C. [C. M.] 1615.

When all thy mercies, O! my God, My ri - sing soul sur - veys,

Mae'r haul yn ddisglaer yn y nef, Cyf - iawnder dwyfol ddyn;

Transported with the view, I'm lost In wonder, love, and praise.

Ac mae'n ty - wynu'n hyfryd iawn Ar bob dryll - ied - ig un.

24. DOWLAND'S. M. C. [C. M.] J. Dowland, 1592.

My God, how won-der- ful thou art! Thy ma- jes - ty how bright!

Mae'r or- sedd fawr yn awr yn rhydd, Gwrandewir llais y gwan;

DOWLAND'S.—*Parhad.* [*Continued.*]



25. DARMSTADT. M. C. [C. M.] KRIEGER, 1666.





St. MAGNUS.—*Parhad.* [*Continued.*]



40. St. MARY. M. C. [C. M.]

RATHIEL.



41. St. PETER. M. C. [C. M.] Reinagle.

When I can read my ti - tle clear To mansions in the skies,

Ni fethodd gweddi daer er-ioed A chyrhaedd hyd y nef;

I bid farewell to ev'-ry fear, And wipe my weeping eyes.

Ac mewn cyfyngder f'enaid, rhed Yn un- ion a - to ef.

42. St. STEPHEN. M. C. [C. M.] W. Jones.

O! God of love, how blest are they Who in thy ways delight!

Mae add-ew- id - ion, mel-us wledd, Yn gyflawn ac yn rhad,

St. STEPHEN.—*Parhad.* [*Continued.*]

Thy presence guides them all the day, And cheers them all the night.

Yn y cyf - am - mod pur o hedd, Tra - gwyddol ei bar - hâd.

43. STUKELEY. M. C. [M. C.] Mendelssohn.

Je - ru - sa - lem, my happy home, Name e - ver dear to me!

Mi af yn mlaen yn nerth y nef Tua'r par - ad - wysaidd dir;

When shall my labours have an end In joy, and peace, and thee?

Ac ni or - phwysaf nes cael gwel'd Fy e - ti - feddiaeth bur.

44. St. ANN. M. C. [C. M.] Dr. Croft.



45. St. GEORGE. M. C. [C. M.] N. Hermann.



St. GEORGE.—*Parhad.* [*Continued.*]

Let every land their tongues employ, And hymns of triumph sing.

A fu fel finnau'n af - lan oll, Yn bur yn nghwmni'm Nêr.

46. St. LEONARD. M. C. [C. M.]

H. Smart.

Lord, I be - lieve a rest re - mains, To all thy people known;

Pan fyddo f' Arglwydd i mi'n rhoi Ond golwg ar ei wedd,

A rest, where pure enjoyment reigns, And thou art loved a - lone.

Mae'r oll a welir dan yr haul Yn ddiddim wrth ei hedd!

47. SOUTHWOLD. M. C. [C. M.] Dr. Gauntlett.

There is a fountain filled with blood, Drawn from Immanuel's veins;

Mi wel-af ffynnon lawn o waed, Sef gwaed y Meichiau mawr,

And sinners plunged beneath that flood Lose all their guilty stains.

Lle gall troseddwyr mwyaf gaed Gael bywyd ynddi'n awr.

48. TIVERTON. M. C. [C. M.] J. Gregg.

How sweet, how heavenly is the sight, When those that love the Lord

O! deffro'n for- en, f'en-aid gwan, Ar dor iad cynta'r dydd.

TIVERTON.—*Parhad.* [*Continued.*]



49. TRENT. M. C. [C. M.]

O. A. King.





50. UNIVERSITY. M. C. [C. M.] Dr. Randel.



51. WALSAL. M. C. [C. M.]

PURCELL.

O! shine on this be-night - ed heart, With beams of mercy shine!

'Rwyf fel y gwyliwr ar y mur, Yn disgwyl, bob yr awr,

And let thy healing voice im - part A taste of joy Divine!

Am wel'd yn gwawrio Ju - bil fwyn Fy mudding - oliaeth fawr.

52. WARBURTON. M. C. [C. M.]

G. WARBURTON.

There is a name I love to hear; I love to sing its worth;

Mae Ie - su Grist yn drysor mwy Na holl dry-sor - au'r byd:

WARBURTON.—*Parhad.* [*Continued.*]

It sounds like music in mine ear; The sweetest name on earth.

Daeth hedd a bywyd i ni trwy Ei ryfedd ang - eu drud.

53. WARTBURG. M. C. [C. M.] 1892.

As pants the hart for cooling streams, When heated in the chase,

Di - fyr - u wnaf fy oes yn llwyr Mewn my - fyr dodau maith

So longs my soul, O God! for thee, And thy re - freshing grace.

Ar bur ble - ser - au Seion wen, Sydd draw yn mhen fy nhaith.

54. YMADAWIAD. M. C. [C. M.] Hen Alaw.



55. Y WAWR. M. C. [C. M.] Gwilym Gwent.

My Shepherd will supply my need, Je - ho - vah is his name;

Nis gall angyl - ion pur y nef, A'u don - iau aml hwy,

In pastures fresh he makes me feed, Be - side the living stream.

Fyth os - od all - an haeddiant llawn An - feid - rol, ddwyfol, glwy.

56. ABERGELE. M. C. [C. M.] J. A. Lloyd.

When from the silent realm of shade Sprang forth the world so fair,

Pechadur wyf y du - a'n fyw— Trugaredd yw fy nghri:

ABERGELE.—*Parhad.* [*Continued.*]



57. ABRIDGE. M. C. [C. M.]

ISAAC SMITH.



58. BALLERMA. M. C. [C. M.] Alaw Ysgaenaidd.



59. BEDFORD. M. C. [C. M.] W. Wesall.



BEDFORD.—*Parhad.* [*Continued.*]



60. BELMONT. M. C. [C. M.]

S. Webbe.



61. BURMAH. M. C. [C. M.]

Fountain of mercy, God of love, How rich thy bounties are!

Ar fôr tymmhestlog teithio 'rwyf I fyd sydd well i fyw,

The rolling seasons as they move, Proclaim thy constant care.

Gan wenu ar ei stormydd oll— Fy Nhad sydd wrth y llyw.

62. COVENEY. M. C. [C. M.]

T. M. Wood.

Rejoice, be - liever, in the Lord, Who makes your cause his own;

Ti, Ie - su, ydwyt oll dy hun, Fy meddiant ar y llawr;

COVENEY.—*Parhad.* [*Continued.*]



63. EMMAUS. M. C. [C. M.]



64. GLOUCESTER. M. C. [C. M.]

1592.



55. LONDON. M. C. [C. M.]

Dr. Croft.



LONDON—*Parhad.* [*Continued.*]



66. MANCHESTER. M. C. [C. M.] Dr. Wainwright.





67. ABERDEEN. Mesur Salm:

neu Mesur Cyffredin Cymraeg.

[Welsh Psalm or Common Metre. 8. 7. *Iambic.*] Brown-Borthwick.



68. ABERGWILI. M. S. [Ps. M.] D. Lewis.



ABERGWILI.—*Parhad.* [*Continued.*]



69. ABERMAWDDACH. M. S. [Ps. M.] Al. Gymreig.





70. ANNOGAETH. M. S. [Ps. M.] J. Edwards.

I dŷ'r Arglwydd pan dd'wedant, Awn, Im' llawen iawn oedd gwrando:

Sai'n traed o fewn Caersalem byrth, Yr un ni syrth oddi yn - o.

71. ARENIG. M. S. [Ps. M.] Brisgil.

O Ddaw y llucedd! edrych, gwêl, A dychwel i ym - g'ledd - u

ARENIG.—*Parhad.* [*Continued.*]



72. BADEN. M. S. [Ps. M.] 1675.





73. BRYNHYFRYD. M. S. [Ps. M.] Al. Gymreig.

Mor gu, O Arglwydd! gen - yf fi. Dy ddeddf di a'th gyfammod;

Ac ar y rhai'n, o ddydd i ddydd, Y bydd fy holl fy-fyrdod.

74. CAERGYBI. M. S. [Ps. M.] J. Jeffreys.

Di-olch - af fi â chalon rwydd, Diolchaf fi â chalon rwydd

CAERGYBI.—*Parhad.* [*Continued.*]

I'r Arglwydd bob amseran; Ei foliant ef, Ei foliant ef a'i

pp *p*

wir fawrhâd, Fo'n wastad yn fy ngenau, Fo'n wastad yn fy ngenau,

pp *p*

mf *f*

f

Fo'n wastad yn fy ngenau, Fo'n wastad yn fy ngen - au.

mf *f*

75. CAERSALEM. M. S. [Ps. M.] Alaw Gymreig.



76. CAMBRIA. M. S. [Ps. M.] J. A. Lloyd.



CAMBRIA.—*Parhad.* [*Continued.*]



77. DYFRDWY. M. S. [Ps. M.]

J. Jeffreys.





78. DOLGELLAU. M. S. [Ps. M.] J. Williams.



79. DYMUNIAD. S. M. [Ps. M.] R. H. WILLIAMS.



80. ELIZABETH. M. S. [Ps. M.] R. H. PRITCHARD.



ELIZABETH.—*Parhad.* [*Continued.*]



81. ELY. M. S. [Ps. M.] Dr. Turton.





82. EIDDUNED. M. S. [Ps. M.] Jones, Ramoth.



83. GLANTREFNANT. M. S. [Ps. M.] J. Ashton.



84. GOBAITH. M. S. [Ps. M.] J. Williams, Dinbych.



GOBAITH.—*Parhad.* [*Continued.*]



85. GWALIA. M. S. [Ps. M.]

Hen Alaw.



86. HEBRON. M. S. [Ps. M.]

Alaw Gymreig.



HEBRON.—*Parhad.* [*Continued.*]

i? Mae son am danat ti'n mhob man Yn cod - i'r gwan i

fyn - y, Yn cod - i'r gwan i fyn - y.

87. HIRAETH. M. S. [Ps. M.] Alaw Gymreig.

O Brysia, Arglwydd! clyw fy llais, O brysur gelwais arnat;

HIRAETH.—*Parhad.* [*Continued.*]



88. LYBIA. M. S. [Ps. M.]





89. LLANDDWYWE. M. S. [Ps. M.] Alaw Gymreig.



90. LLANGRANOG. M. S. [Ps. M.] J. Parry.



LLANGRANOG.—*Parhad.* [*Continued.*]



91. LLANIDLOES. M. C. [C. M.] J. A. Lloyd.





92. LLANFERRAS. M. S. [Ps. M.] W. Evans.



93. MYNYDD CARMEL. M. S. [Ps. M.] Hen Alaw.



94. MARY. M. S. [Ps. M.]

J. A. Lloyd.



95. MORGANWG. M. S. [Ps. M.]

Klug.



MORGANWG.—*Parhad.* [*Continued.*]



96. OLDENBURG. M. S. [Ps. M.] J. GÖLDEL.



97. PENHYDD. M. S. [Ps. M.] Alaw Gymreig



98. PRION. M. S. [Ps. M.]

Alaw Gymreig.



99. PETERBOROUGH. M. S. [Ps. M.]

Y sawl a drigo, doed yn nes, Yn lloches y Gor - uch-af;

Ef a ym - er - ys i gael bod Yn nghysgod hwn sydd ben - af.

100. RHUTHYN. M. S. [Ps. M.] B. M. Williams.

Mae enw Crist i bawb o'r saint, Fel enaint tywallt - ed - ig.

RHUTHYN.—*Parhad.* [*Continued.*]



101. RORHAU. M. S. [Ps. M.]

HAYDN.





102. RHYDWILYM. M. S. [Ps. M.] Alaw Gymreig.




Gwyn fyd y plant sy'n derbyn dysg, Ac addysg yn y bor - eu;
Nid änt hyd ffyrdd troseddwyr ffol, Nid änt hyd ffyrdd troseddwyr ffol,
Nac i an - nuwiol lwybr - au.

104. St. JAMES. M. S. [Ps. M.]



105. SABBATH. M. S. [Ps. M.] J. Williams.



106. St. FFRAID. M. S. [Ps. M.] Ifan William.



St. FFRAID.—*Parhad.* [*Continued.*]



107. TRALLWM. M. S. [Ps. M.]

J. A. Lloyd.





108. ANGEL'S SONG. Mesur Hir. [Long Metre.]

Orlando Gibbons.

Blest be the Father and his love, To whose ce - les - tial

Ffordd newydd wnaed gan Ie - su Grist I bas-io hei-bio

source we owe Ri - vers of end - less joys a-

u - ffern drist, Wedi ei phal - mant - u gan - ddo

bove, And rills of com - fort here be - low.

ef, O gan - ol byd i gan - ol nef.

97. PENHYDD. M. S. [Ps. M.] Alaw Gymreig



98. PRION. M. S. [Ps. M.]

Alaw Gymreig.



99. PETERBOROUGH. M. S. [Ps. M.]

Y sawl a drigo, doed yn nes, Yn lloches y Gor - uch-af;

